**CYFARFOD Y CYNGOR** **20 RHAGFYR 2023**

# AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a gyflwynwyd ar ran aelodau.

2. **ETHOL CYNGHORYDD CYMUNED – WARD CEFNDY Y RHYL**

Derbyn adroddiad llafar Clerc y Dref.

3. **COFNODION**

Cadarnhau fod cofnodion cyfarfod y Cyngor a chyfarfodydd pwyllgorau yn gywir (copïau ynghlwm):

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | 15 Tachwedd 2023 - | Cofnodion rhifau: | 77 – 87 |
| Y Pwyllgor Cynllunio | 15 Tachwedd 2023 - | Cofnodion rhifau: | 26 – 28 |
| Y Pwyllgor Cynllunio | 6 Rhagfyr 2023 - | Cofnodion rhifau: | 29 - 32 |
| Cadarnhau neu fel arall: | | | |
| Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol | 6 Rhagfyr 2023 - | Cofnodion rhifau: | 51 - 64 |

4. **ADRODDIAD Y MAER**

Derbyn manylion y digwyddiadau y bu'r Maer a'r Dirprwy Faer ynddynt yn ystod y mis diwethaf (copi ynghlwm).

5. **CYFLWYNIAD: COFNOD O FLWYDDYN YN SWYDD Y MAER**

Y Maer i gyflwyno cofnod o'i blynyddoedd fel Maer rhwng 2021 a 2023 i'r Cynghorydd Mrs Diane King ar ran y Cyngor Tref.

6. **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi ynghlwm).

7. **EITEMAU AELODAU: COELCERTH AC ARDDANGOSFA TÂN GWYLLT Y RHYL**

Gohiriwyd yr eitem hon o gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2023. Y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE i gyflwyno pryderon a godwyd ynghylch y digwyddiad blynyddol i sylw'r aelodau.

**8. CYFARFOD ARBENNIG ARFAETHEDIG**

Ymhellach i gofnod rhif 63 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2023, cymeradwyo cynnal Cyfarfod Arbennig y Cyngor ddydd Mawrth, 9 Ionawr 2024 am 4.00pm, i gyfarfod â'r ymgynghorwyr a benodwyd gan Gyngor Sir Ddinbych i werthuso cynigion i adleoli Canolfan Groeso ac Amgueddfa'r Rhyl.

**9. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GWASANAETH CASGLU SBWRIEL AMGEN ARFAETHEDIG**

Derbyn gohebiaeth (copi ynghlwm) gan Gyngor Sir Ddinbych i gadarnhau penodi cynrychiolwyr i fynd i gyfarfod ymgynghori gyda'r awdurdod.

**10. CANSLO CYFARFODYDD**

Gwneud cais ffurfiol i ganlso cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a oedd i'w gynnal ar 3 Ionawr 2023.

**11. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, y dylid eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, ar sail cyfrinachedd.

**12. ADRODDIAD RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS**

Yn unol â'r polisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor Tref, derbyn adroddiad llafar cyfrinachol Clerc y Dref.

**13. CYNGOR SIR DDINBYCH – CAIS AM GYFRANIAD ARIANNOL**

Penderfynu ar gais (copi ynghlwm) gan Gydlynydd Strydlun y Rhyl Cyngor Sir Ddinbych i gynorthwyo gyda chyllid tuag at adnewyddu'r Nodwedd Rhaedr ar Bromenâd y Rhyl.

**14. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD**

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Ariannol a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2023, cymeradwyo'n ffurfiol yr argymhellion ynghylch y gyllideb (copi o'r adroddiad ynghlwm); y praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 a chynghori Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.

**15. GWYLIAU'R NADOLIG – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Cadarnhau trefniadau i ddirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad gyda'r aelodau a ganlyn yn ystod y cyfnod rhwng 21 Rhagfyr 2023 ac 17 Ionawr 2024.

| | | |
|---|---|---|
| Materion Dinesig | - | Y Maer a/neu'r Dirprwy Faer |
| Materion Cynllunio | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio |

| | | |
|---|---|---|
| Eitemau'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol |
| Pob busnes arall | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol |

**16. DIWEDD Y CYFARFOD**

Y Maer i ddiweddu'r cyfarfod.